

Agenda – Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

| | |
|--|--|
| Lleoliad: | I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a: |
| Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledd drwy Zoom | Marc Wyn Jones Clerc y Pwyllgor |
| Dyddiad: Dydd Iau, 6 Gorffennaf 2023 | 0300 200 6565 |
| Amser: 09.30 | SeneddHinsawdd@senedd.cymru |

Rhag-gyfarfod preifat (09.15–09.30)

Cyfarfod cyhoeddus (09.30–11.40)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau.
(09.30)

2 Bil Seilwaith (Cymru) – Sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd
(09.30–10.30) (Tudalennau 1 – 34)

Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd

Neil Hemington, Prif Gynllunydd – Llywodraeth Cymru

Owen Struthers, Pennaeth Cydsynio Cenedlaethol – Llywodraeth Cymru

Nicholas Webb, Cyfreithiwr – Llywodraeth Cymru

Dogfennau atodol:

Briff ymchwil a Geirfa Ddwyieithog – Gwaith craffu ar Gyfnod 1 Bil Seilwaith (Cymru)

Egwyl (10.30–10.40)



3 Bil Seilwaith (Cymru) – Sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd

(10.40–11.40)

Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd

Neil Hemington, Prif Gynllunydd – Llywodraeth Cymru

Owen Struthers, Pennaeth Cydsynio Cenedlaethol – Llywodraeth Cymru

Nicholas Webb, Cyfreithiwr – Llywodraeth Cymru

4 Papurau i'w nodi

(11.40)

4.1 Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023

(Tudalennau 35 – 36)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Cadeirydd mewn perthynas â Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023

4.2 Cyllideb Llywodraeth Cymru 2023–24

(Tudalennau 37 – 39)

Dogfennau atodol:

Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol mewn perthynas â'r ddogfennaeth sy'n cyd-fynd â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru

4.3 Fframwaith cyffredin Gwastraff ac Adnoddau

(Tudalen 40)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Cadeirydd mewn perthynas â'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2023

4.4 Cynllun Masnachu Allyriadau y DU

(Tudalennau 41 – 49)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Cadeirydd mewn perthynas â'r fframwaith cyffredin dros dro ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau y DU

4.5 Y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol

(Tudalennau 50 – 51)

Dogfennau atodol:

Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Cadeirydd mewn perthynas â'r hyn a ddeilliodd o gyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol

4.6 Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) – gwybodaeth dechnegol atodol gan y Gweinidog Newid Hinsawdd

(Tudalennau 52 – 82)

Dogfennau atodol:

Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd mewn perthynas â'r briff technegol ysgrifenedig ar Fil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) (Saesneg yn unig)

Llythyr oddi wrth y Gweinidog Newid Hinsawdd mewn perthynas ag anghysondeb rhwng y Memorandwm Esboniadol a'r Bil yn ymwneud â rheoli mwg

4.7 Bil Seilwaith (Cymru) – Gohebiaeth rhwng y Gweinidog Newid Hinsawdd a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro

(Tudalennau 83 – 95)

Dogfennau atodol:

Gohebiaeth rhwng y Gweinidog Newid Hinsawdd a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro mewn perthynas â Bil Seilwaith (Cymru) (Saesneg yn unig)

4.8 Pwll glo brig Ffos-y-Fran – Barn gyfreithiol wedi'i chomisiynu a'i rhannu gan Coal Action Network

(Tudalennau 96 – 128)

Dogfennau atodol:

Barn gyfreithiol wedi'i chomisiynu a'i rhannu gan Coal Action Network (Saesneg yn unig)

- 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod heddiw**
(11.40)

Cyfarfod preifat (10.40–14.00)

- 6 Bil Seilwaith (Cymru) – Ystyried y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitemau 2 a 3**

- 7 Trafod blaenraglen waith y Pwyllgor – Hydref 2023**

(Tudalennau 129 – 135)

Dogfennau atodol:

Papur – Blaenraglen waith (Saesneg yn unig)

- 8 Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) – Ystyried Adroddiad drafft Cyfnod 1 y Pwyllgor**

(Tudalennau 136 – 194)

Dogfennau atodol:

Adroddiad drafft – Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru):

Adroddiad Cyfnod 1 (Saesneg yn unig)

Amser cinio (12.30–13.15)

- 9 Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) – Ystyried Adroddiad drafft Cyfnod 1 y Pwyllgor**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Ein cyf/Our ref: MA/JJ/1638/23

Heledd Fychan AS
Cadeirydd Dros Dro
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

19 Mehefin 2023

Annwyl Heledd,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Mai yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am waith a wnaed gan Lywodraeth Cymru i godi ymwybyddiaeth ymhlith busnesau am Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023, a datblygu canllawiau manwl mewn perthynas â hi .

Dechreuodd ein cynllun cyfathrebu parhaus i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol cyn cyflwyno Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) i'r Senedd fis Medi diwethaf. Ar ôl pasio'r Bil ym mis Rhagfyr, rhyddhawyd deunyddiau codi ymwybyddiaeth ar unwaith. Ers hynny, rydym wedi parhau i rannu deunyddiau cyfathrebu cenedlaethol, gan gynnwys testunau ar y cyfryngau cymdeithasol drwy sianeli Llywodraeth Cymru a sianeli partneriaid, gan gynnwys Busnes Cymru. Dyma enghraifft o [negeseuon Trydar](#).

O 5 Mehefin ymlaen, rydym wedi cynyddu gweithgareddau ymgyrchu cenedlaethol drwy rannu gwybodaeth drwy [glip animeiddio](#). Bydd gweithgareddau tebyg yn parhau yn y misoedd cyn i'r gwaharddiadau ddod i rym. Yn ddiweddar, rydym wedi ymgysylltu ag asiantaeth farchnata i helpu i fwrw ymlaen â'r ymgyrch genedlaethol benodedig a byddwn yn datblygu ein cynlluniau ymhellach ar y cyd â hwy.

Mae [gwefan Llywodraeth Cymru](#) wedi cael ei diweddarau gyda gwybodaeth am y newidiadau yn y gyfraith a'r amserlen ddisgwyliedig. Mae'n darparu gwybodaeth i fusnesau am sut y gallant baratoi ar gyfer y newidiadau hyn. Bydd y wefan yn parhau i gael ei diweddarau wrth i'r Ddeddf gael ei rhoi ar waith.

Rydym hefyd yn llunio canllawiau cynhwysfawr a fydd yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Ddeddf, a fydd yn cael eu cyhoeddi yn ddiweddarach y mis hwn. Wrth ddatblygu'r rhain, mae swyddogion wedi cydweithio ag ystod o randdeiliaid allweddol gan gynnwys cyrff cynrychioliadol ar gyfer busnesau yr effeithir arnynt, cyrff anllywodraethol amgylcheddol, grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig, awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae nifer o ddarpariaethau yn y Ddeddf eisoes mewn grym, gan iddynt ddod i rym yn awtomatig ar y diwrnod ar ôl cael y Cydsyniad Brenhinol. Mae ein cynllun i gyflwyno'r gwaharddiadau cyntaf ym mis Hydref ar y trywydd iawn. Bydd gwaharddiadau ar gynhyrchion sydd eisoes yn yr Atodlen yn cael effaith drwy Orchymyn. Daeth ein hymgyngoriad ar gynigion i gyflwyno sancsiynau sifil fel cyfundrefn orfodi amgen i'r sancsiynau troseddol sydd eisoes yn y Ddeddf i ben ar 9 Mehefin. Bydd y gwaith o ddraffio'r Rheoliadau sy'n deillio o hyn yn digwydd dros yr haf fel y gall y Senedd eu hystyried gan ddefnyddio'r gweithdrefnau cadarnhaol mewn pryd i ddod i rym gyda'r gwaharddiadau cyntaf ym mis Hydref.

Yn gywir,



Julie James AS/MS

Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Rebecca Evans AS

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

23 Mehefin 2023

Annwyl Rebecca,

Dogfennaeth sy'n cyd-fynd â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru

Yn ein hadroddiad ar graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24, daethom i'r casgliad a ganlyn:

“Casgliad 1. Rydym yn croesawu parodrwydd y Gweinidog i ystyried ffyrdd y gellir gwella dogfennaeth y gyllideb. Er ein bod wedi adlewyrchu ein barn uchod, mae'r Pwyllgor wedi penderfynu ymgynghori â phwyllgorau'r Senedd ar eu profiadau o graffu ar ddogfennaeth y gyllideb eleni a ffyrdd y gellir gwneud gwelliannau.”

Anfonwyd llythyr wedi hynny at Gadeiryddion Pwyllgorau'r Senedd ar 8 Mawrth 2023, a oedd yn gofyn y cwestiwn hwn:

“Pa welliannau yr hoffech eu gweld o ran y ddogfennaeth sy'n cyd-fynd â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru a thystiolaeth ysgrifenedig ddilynol gan y Gweinidog?”

Cawsom ymatebion gan Gadeiryddion y pwyllgorau a ganlyn ac mae'r holl ymatebion wedi'u cyhoeddi ar wefan y Senedd:

- [Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith](#)
- [Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#)
- [Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol](#)
- [Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai](#)
- [Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol](#)
- [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg](#)
- [Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig](#)



Roedd yr ymatebion yn nodi nifer o themâu cyffredin a meysydd lle y gellid gwneud gwelliannau i broses y gyllideb. Ceir crynodeb o'r rhain isod:

Amseroldeb

Fel pwynt cyffredinol, nododd nifer o'r Pwyllgorau fod y duedd yn y blynyddoedd diwethaf o gyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft yn ddiweddarach yn y flwyddyn, gan arwain at gwtogi amserlen y gyllideb, wedi'i gwneud yn heriol i asesu effaith y Gyllideb Ddrafft yn ystyrlon ar y meysydd polisi o fewn eu cylchoedd gwaith. Roedd rhai pwyllgorau o'r farn bod hwn yn wendid allweddol sy'n amharu'n sylweddol ar allu'r Pwyllgorau i ystyried cynigion cyllidebol yn fanwl.

Tryloywder

Roedd llawer o'r Pwyllgorau yn teimlo y gallai Llywodraeth Cymru fod yn fwy tryloyw yn y ffordd y mae'n cyflwyno ei gwybodaeth yn y Gyllideb Ddrafft. Yn benodol, teimlai'r Cadeiryddion y dylid nodi'n glir effaith penderfyniadau cyllidebol ar feysydd polisi o fewn cylch gwaith pob Pwyllgor.

Mae hyn yn adleisio [Argymhelliad 13](#) yn ein hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2023-24 a oedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud newidiadau i'r ffordd y mae'n cyflwyno gwybodaeth mewn dogfennau a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft fel ei bod yn darparu:

- asesiad o effaith penderfyniadau gwariant ar draws portffolios, gan gynnwys effaith ymarferion ailflaenoriaethu ac eglurder ar effaith penderfyniadau mewn portffolios mewn termau real; ac
- asesiad o sut y mae penderfyniadau gwario Llywodraeth Cymru yn cefnogi mesurau ataliol (neu nad ydynt yn gwneud hynny).

Mewn [ymateb](#), gwnaethoch dderbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor, gan nodi:

“Er ein bod wedi ymrwymo i wella sut rydym yn gwneud ein penderfyniadau gwariant ac yn amlinellu eu heffeithiau, rhaid i ddull o'r fath fod yn gymesur.

Rydym eisoes yn cyhoeddi cyfres o ddogfennau fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft, sy'n cynnwys ymatebion Gweinidogion unigol i'w priod bwyllgorau craffu yn y Senedd, ac sy'n rhoi cyfrif manylach ar sut y mae penderfyniadau'r Gyllideb Ddrafft wedi effeithio ar grwpiau gwahanol neu wedi ystyried materion megis atal. Mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn parhau i amlinellu'r dystiolaeth gyd-destunol sydd wedi cefnogi ein penderfyniadau gwariant.

Rydym yn agored i ystyried newidiadau pellach y gellid eu gwneud fel rhan o waith y Cynllun Gwella'r Gyllideb.”



Ansawdd y dystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru

Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch ansawdd y dystiolaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, gyda rhai Cadeiryddion yn dweud nad oedd cyflwyniadau gweinidogion mor gynhwysfawr ag yr oeddent mewn blynyddoedd blaenorol. Galwodd eraill hefyd ar adrannau Llywodraeth Cymru i ymateb yn llawn ac yn fanwl i gais ysgrifenedig pob Pwyllgor am dystiolaeth.

Ymateb i argymhellion cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol

Yn olaf, roedd nifer o'r Pwyllgorau yn siomedig nad oedd Llywodraeth Cymru yn gallu ymateb i argymhellion y Gyllideb Ddrafft ddigon cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol. Roedd rhai Pwyllgorau yn teimlo hefyd y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i egluro'r gwahaniaethau rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol.

Rydym yn croesawu eich parodrwydd i ymgysylltu â'r Pwyllgor ar y materion hyn a'r ffaith eich bod yn agored i drafod newidiadau i'r ffordd y caiff gwybodaeth ei chyflwyno ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft.

Gofynnwn felly i'r pryderon hyn gael eu hystyried cyn cylch cyllideb 2024-25.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion Pwyllgorau'r Senedd a grybwyllwyd uchod.

Yn gywir



Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.





Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/JJ/1498/23

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a'r Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

26 Mehefin 2023

Annwyl Llyr,

Rwy'n ysgrifennu er mwyn eich hysbysu bod Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2023 a fydd yn cael eu gosod gerbron Senedd Cymru yn fuan yn dod o dan gwmpas y Fframwaith Cyffredin ar gyfer Adnoddau a Gwastraff.

Mae'r rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016, Atodlen 9, Rhan 2, sy'n gosod amodau trwydded penodol ar gyfer samplu ac adrodd y mae'n rhaid i gwmnïau Cyfleusterau Deunyddiau (MFs) sy'n derbyn 1,000 tonnell neu fwy o wastraff cymysg gydymffurfio â hwy. Bydd rheoliadau 2023 yn cynyddu cwmpas yr MFs y mae'n ofynnol iddynt samplu ac adrodd am eu gwastraff, yn ehangu y mathau o ddeunyddiau i'w nodi a'u mesur a'i gwneud yn ofynnol i MFs adrodd mwy o wybodaeth am gyflenwyr a chyrchfannau gwastraff. Bydd yr wybodaeth hon yn cefnogi'r gwaith o gyflawni cynllun Cyfrifoldeb Cynhyrchydd Estynedig ar gyfer Pecynnu (pEPR).

Yn gywir,

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ein cyf/Our ref: JJ/PO/220/2023

Heledd Fychan AS
Cadeirydd Dros Dro
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

26 Mehefin 2023

Annwyl Heledd,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Mai yn gofyn am ragor o wybodaeth a/neu eglurhad mewn perthynas â nifer o faterion sy'n ymwneud â Fframwaith Cyffredin cychwynnol ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU.

Isod mae'r ymatebion i'r cwestiynau a ofynnwyd gan y Pwyllgor. Hoffwn hefyd nodi natur unigryw'r Fframwaith Cyffredin hwn, yn gymaint ag y mae'n amlinellu'r ffordd y bydd pedair Llywodraeth y DU yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni ac i ddatblygu'r cynllun hwn ar y cyd. Felly, nid yn unig mae'r fframwaith yn ystyried y ffordd y byddwn yn gwneud ac yn cytuno ar benderfyniadau, ond hefyd sut y bydd y pedair llywodraeth yn gweithio gyda'i gilydd i gynnal marchnad effeithiol.

Y Fframwaith hwn yw'r fersiwn gyntaf o ddogfen fyw, ac mae Awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn disgwyl datblygu'r Fframwaith wrth i'r cynllun a'n ffordd o weithio ni ddatblygu.

Cymhwysedd

Sut y gallai'r anghydfod cymhwysedd parhaus rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU effeithio ar ddeddfwriaeth a phenderfyniadau polisi yn y dyfodol o fewn fframwaith Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU?

Er bod ein barn yn amrywio ynghylch defnyddio'r Ddeddf Cyllid mewn rhai elfennau polisi yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU, nid yw'r mater hwn yn broblem ar hyn o bryd am fod pob aelod o'r Awdurdod yn gweithio tuag at ddiben cyffredin. Dangoswyd hyn drwy'r cydsyniad deddfwriaethol a roddwyd ar gyfer Bil Cyllid 2020. Yn y dyfodol, os ydym yn credu bod penderfyniadau sydd i'w gwneud o fewn cymhwysedd y Senedd, a bod angen i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan, hoffwn i fod yn glir y byddwn yn cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Allwch chi ymhelaethu ar y darpariaethau penodol yn y fframwaith sy'n nodi sut y caiff anghytundebau ar gymhwysedd eu rheoli, a sut yr ymgynghorir â'r deddfwrfeydd ar anghydfodau cymhwysedd?

Fel yr amlinellir ar dudalen 38 o'r Fframwaith, os bydd cymhwysedd llwyr yn cael ei gwestiynu, bydd y pedwar Awdurdod Cenedlaethol yn ystyried y mater hwn a, phan fydd hynny'n briodol, yn ceisio barn y deddfwrfeydd datganoledig. Gwneir popeth yn ein gallu i ddatrys anghydfodau drwy strwythur llywodraethu Awdurdod Cynllun Masnachu Gollyngiadau'r DU ar bob lefel. Fodd bynnag, os bydd anghydfod ynghylch cymhwysedd nad oes modd ei ddatrys, bydd yn cael ei ystyried yn anghydfod ffurfiol a bydd yn destun y broses datrys anghydfodau ffurfiol. Fel yr amlinellir uchod, pan fyddwn yn credu bod penderfyniadau sydd i'w gwneud o fewn cymhwysedd y Senedd, a bydd angen i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan, byddwn yn cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol.

Monitro Effeithiolrwydd

Sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu monitro a gwerthuso effeithiolrwydd Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU o ran cyflawni ei hamcanion, yn enwedig o ran lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr?

Mae'r Awdurdod yn llunio adroddiad blynyddol o'r enw 'Adroddiad ar Weithredu Marchnad Garbon y DU', sydd â'r nod o sicrhau tryloywder ynghylch perfformiad y cynllun. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am gydymffurfio a gorfodi o dan y cynllun drwy roi ciplun o'r ffordd mae'r cynllun wedi cael ei weithredu yn ystod y flwyddyn diwethaf. Mae'r adroddiad hwn yn helpu Llywodraeth Cymru i fonitro cynnydd y cynllun.

Yn ogystal, mae Awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU wedi ymrwymo i astudiaethau gam a fydd yn gwerthuso pa mor effeithiol yw'r cynllun wrth ysgogi lleihau allyriadau, yn ogystal â deall yr effaith mae'n ei chael ar gyfranogwyr a'r economi ehangach.

Bydd y cam cyntaf, y disgwylir iddo gael ei gwblhau yn 2023, yn canolbwyntio ar y broses o sefydlu'r cynllun a'r canlyniadau a welwyd yn ystod ei flynyddoedd cychwynol. Disgwylir i ail gam y gwerthusiad gael ei gynnal rhwng 2025 a 2026, a bydd yn canolbwyntio ar effeithiau'r cynllun yn ystod y pedair blwyddyn gyntaf, yn ogystal â deall yr effaith mae'r cynllun wedi'i chael ar ddwysedd allyriadau'r prosesau sy'n rhan o'r cynllun, neu unrhyw ddadleoli carbon y gellir ei briodoli i'r cynllun. Nid yn unig bydd y cam hwn yn canolbwyntio ar yr effeithiau a welwyd o ganlyniad i'r cynllun, ond hefyd y ffordd mae'r effeithiau hyn wedi cael eu cyflawni ac unrhyw effeithiau canlyniadol ehangach.

A oes unrhyw ddarpariaethau yn y fframwaith Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i fynd i'r afael â gwahaniaethau rhanbarthol posibl yng ngweithrediad a chanlyniadau'r cynllun ar draws pedair gwlad y DU?

Mae darpariaeth yn y Fframwaith, o dan y dulliau anneddfwriaethol, i sicrhau bod y Fframwaith yn cyflawni'r amcanion y cytunwyd arnynt yng Nghyd-bwyllgor y Gweinidogion ym mis Hydref 2017, sef cynnal, fan leiaf, hyblygrwydd cyfatebol i deilwra polisïau i anghenion penodol pob gwlad fel y rhoddid o dan reolau'r UE. Mae'r materion hyn yn ystyried datblygu polisïau a gweithredu'r cynllun, er mwyn sicrhau tegwch ledled y DU.

Sut mae fframwaith Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn cyd-fynd â'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol, a sut y caiff canlyniadau'r adolygiad eu hintegreiddio i brosesau llywodraethu a datrys anghydfodau'r fframwaith?

Mae Fframwaith y Cynllun Masnachu Allyriadau yn adlewyrchu'r egwyddorion a'r mecanweithiau a amlinellir yn yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol, fel y cadarnheir yn yr adran '*The Joint Governance Process*' o'r concordat (troednodyn – [Fframwaith Cyffredin Cychwynnol y Cynllun Masnachu Allyriadau](#) t.14). Mae'r Fframwaith wedi cael ei integreiddio i'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol, yn gymaint ag os oes problem neu anghytundeb nad oes modd ei ddatrys o dan strwythur llywodraethu Awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, mae'n cael ei ystyried yn anghydfod a gellir ei godi gyda'r ysgrifenyddiaeth cysylltiadau rhynglywodraethol. Bydd yr anghydfod yn cael ei uwchgyfeirio i'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol (troednodyn – [Fframwaith Cyffredin Cychwynnol y Cynllun Masnachu Allyriadau](#) t.106. Os yw'r anghydfod yn parhau i fod heb ei ddatrys, gellir ei uwchgyfeirio ymhellach i'r Cyngor Cysylltiadau Rhynglywodraethol.

Y Gronfa Adnoddau, Ffyrdd o Weithio a Gwneud Penderfyniadau

Allwch chi roi mwy o eglurder ynghylch rôl y 'Gronfa Adnoddau' o swyddogion ac egluro sut mae'n berthnasol i grwpiau eraill a sefydlwyd gan y fframwaith hwn?

Mae Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn cael ei reoli o ddydd i ddydd gan swyddogion sy'n cynrychioli'r pedair llywodraeth. Gyda'i gilydd y swyddogion hyn yw'r 'Gronfa Adnoddau', sy'n cefnogi'r Awdurdod i wneud penderfyniadau mewn perthynas â Chynllun Masnachu Allyriadau'r DU, yn ogystal â darparu cymorth technegol a gweithredol. Mae'r Gronfa Adnoddau'n atebol i'r Awdurdod, a dim ond ar ran yr Awdurdod y caiff weithredu. Gellir rhoi'r rolau sydd eu hangen i gefnogi pob swyddogaeth yr Awdurdod yn y grwpiau canlynol: Arweinyddiaeth a Llywodraethu, Gweithrediadau, Polisiâu, Dadansoddi, Cymorth i Randdeiliaid, a Galluogwyr. Mae ceisiadau am gymorth yn cael eu sianelu drwy arweinyddiaeth a chymorth llywodraethu'r Gronfa Adnoddau. Er bod pob swyddog yn y Gronfa Adnoddau yn dod o'r Adran Diogelwch Ynni a Sero Net (BEIS yn flaenorol) ar hyn o bryd, am mai dyna'r partner a ddefnyddir gan amlaf, mae pob llywodraeth yn gallu darparu adnoddau, ac mae arbenigedd yn cael ei ddefnyddio o'r llywodraethau datganoledig ar sail ad-hoc, yn enwedig ym meysydd Polisi Gweithredol a Dadansoddi.

Sut mae'r fframwaith yn sicrhau bod y 'Gronfa Adnoddau' o swyddogion yn cefnogi'r gwaith o gydgyssylltu a gweithredu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn effeithiol ar draws pedair llywodraeth y DU?

Mae'r fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol cynnal rhestr gyswllt o swyddogion, a rhagor o fanylion ynghylch rolau, cyfrifoldebau a gweithdrefnau gweithredol y Gronfa Adnoddau, o fewn Cylch Gorchwyl a Gweithdrefnau Gweithredu Awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Mae'r Gronfa Adnoddau yn gyfrifol am reoli a chydlynu Cynllun Gwaith yr Awdurdod a'r Gronfa Adnoddau yn gyffredinol. Wedyn mae'r Cynllun Gwaith yn cael ei ddatblygu ac mae pob aelod o'r Awdurdod yn cytuno arno – gyda Fframwaith Dirprwyo a Goruchwylio Awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn sail iddo. Mae'r fframwaith hwn yn amlinellu'r meini prawf ar gyfer dirprwyo swyddogaethau'r Awdurdod, a lefel yr oruchwylio a'r adrodd gan yr Awdurdod sydd eu hangen. Mae'n glir bod yr holl swyddogaethau dirprwyedig yn cael eu goruchwylio gan yr Awdurdod, a bod yr Awdurdod yn cymryd rhan yn y swyddogaethau hyn; mae manylion y rhain yng Nghynllun Gwaith yr Awdurdod a'r Gronfa Adnoddau. Ym mhob achos pan fydd penderfyniad yn cael ei ddirprwyo i'r Gronfa Adnoddau, mae angen cadarnhau'r penderfyniad ac adrodd ar y gwaith

o gyflawni swyddogaethau. Caiff swyddogion o unrhyw lywodraeth ofyn i'r Gronfa Adnoddau wneud gwaith i helpu'r Awdurdod yn ei gyfanrwydd i ddatblygu polisiau ac i gyflawni Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU.

Pa gyfrifoldebau penodol a neilltuir i'r bwrdd uwch-swyddogion, a sut y bydd eu proses benderfynu yn rhyngweithio â strwythurau llywodraethu eraill?

Mae cyfrifoldebau Uwch-swyddogion y Bwrdd yn cael eu hamlinellu yn y Fframwaith – mae'r manylion yng Nghylch Gorchwyl Awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Bydd y ffordd mae'r bwrdd yn rhyngweithio â strwythurau llywodraethu eraill yn dibynnu ar y mater o dan sylw. Mae swyddogion ar lefel gweithgor yn gyfrifol am nodi meysydd lle mae'n bosibl y bydd cyfleoedd neu densiynau'n codi mewn perthynas â strwythurau llywodraethu y tu allan i Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU, a hwyluso gweithio ar y cyd â'r Bwrdd Uwch-swyddogion yn ôl y gofyn.

Allwch chi ymhelaethu ar yr egwyddorion a amlinellir yn y fframwaith ar gyfer prosesau gwneud penderfyniadau, yn enwedig o ran y prosesau clirio mewnol a phrosesau cyflym ar gyfer y pedair llywodraeth?

Mae proses yr Awdurdod ar gyfer gwneud penderfyniadau'n gydweithredol iawn, gyda chyfnod o bythefnos o leiaf wedi'i gynnwys i sicrhau bod pob aelod yn cael yr amser a'r cyfle i ystyried penderfyniadau – fel Awdurdod ond hefyd ar gyfer clirio mewnol, a all amrywio ar draws y gwahanol lywodraethau. Er mwyn cyflymu penderfyniad neu weithgaredd, mae angen i bawb gytuno arno er mwyn iddo fod yn addas ar gyfer proses cyflym.

Pa fesurau sydd ar waith o fewn fframwaith Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i sicrhau tryloywder ac atebolrwydd mewn prosesau gwneud penderfyniadau ar draws pedair llywodraeth y DU?

Mae'r Gweinidogion Portffolio, sy'n cynrychioli pob un o'r llywodraethau yn Awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, yn atebol i benderfyniadau eu gwahanol ddeddfwrfeydd. Felly, mae tryloywder yn cael ei sicrhau ar draws y llywodraeth drwy'r prosesau seneddol arferol, er enghraifft drwy'r trafodaethau am ddeddfwriaeth ddrafft ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU.

Rheoleiddwyr, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd

Allwch chi ddarparu copi o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Asiantaeth yr Amgylchedd a rheoleiddwyr amgylcheddol datganoledig, a barn Llywodraeth Cymru ar sut y bydd ei threfniadau'n effeithio ar weithrediad Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU?

Rwyf wedi atodi copi o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Asiantaeth yr Amgylchedd a rheoleiddwyr amgylcheddol y llywodraethau datganoledig. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd, fel Gweinyddwr y Gofrestrfa, yn fuddiol am ei bod yn caniatáu i'r Awdurdod ddefnyddio'r arbenigedd a'r profiad gwerthfawr iawn o'r adeg pan oeddent yn cyflawni'r un swyddogaeth o dan Gynllun Masnachu Allyriadau'r UE. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod nifer o Gyd-weithgorau o fewn yr Awdurdod yn craffu ar swyddogaeth Asiantaeth yr Amgylchedd, gan gynnwys y Cyd-weithgor Gweithrediadau sy'n cael ei fynychu gan swyddogion yr Awdurdod o'r pedair llywodraeth a rheoleiddwyr y llywodraethau datganoledig.

Sut mae fframwaith Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn mynd i'r afael ag anghysondebau posibl wrth weithredu a gorfodi'r cynllun ar draws pedair gwlad y DU, yn enwedig o ran rheoleiddwyr amgylcheddol a chydymffurfedd?

Mae'r Fframwaith yn darparu ar gyfer strwythurau lle mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ar y cyd ac yn ôl hierarchaeth, yn dibynnu ar bwysigrwydd y penderfyniad. Mae penderfyniadau ynghylch gorfodi a chydymffurfedd yn cael eu gwneud gan reoleiddwyr, yn unol â deddfwriaeth a wnaed ar y cyd, felly mae'n annhebyg y bydd unrhyw anghysondebau. Fodd bynnag, os yw problemau newydd a bach yn dod i'r amlwg, mae'r rhain yn cael eu trafod gan y gweithgorau, sy'n cytuno ar atebion, gyda'r pedwar rheoleiddwyr yn bresennol. Os bydd problemau newydd a mwy difrodol yn codi, mae'r rhain yn cael eu cyfeirio a'u huwchgysfeirio er mwyn gwneud penderfyniadau yn eu cylch a'u gweithredu drwy weithdrefnau deddfwriaethol, y bydd angen cymeradwyaeth gan Weinidogion yn eu cylch.

Pa rôl fydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd yn ei chwarae yn y gwaith o weithredu a goruchwyllo fframwaith Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, a sut y caiff ei argymhellion eu hintegreiddio mewn penderfyniadau polisi?

Mae'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd yn rhoi cyngor i Weinidogion Portffolio'r Awdurdod, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Newid Hinsawdd 2008. Mae'r cyngor hwn yn cael ei ystyried wrth wneud penderfyniadau ar lefel Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Bydd y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd hefyd yn rhoi cyngor a thystiolaeth ar yr adegau adolygu sydd wedi'u cynllunio ar gyfer 2023 a 2028. Nid yw'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd yn chwarae rôl wrth weithredu neu oruchwyllo'r fframwaith.

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Pa strategaethau sydd ar waith i sicrhau ymgysylltu ystyrion a chynhwysol â rhanddeiliaid wrth ddatblygu, gweithredu ac adolygu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU?

Mae Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn gynllun technegol a chymhleth sy'n dibynnu'n drwm ar sylfaen dystiolaeth ehangach, gan gynnwys dadansoddi economaidd, data am y farchnad a barn rhanddeiliad. Ymgynghori â'r cyhoedd yw sail ein gwaith ymgysylltu, drwy amryw ymgynghoriadau allweddol fel 'Prisio Carbon y DU yn y Dyfodol' yn 2019, a'r ymgynghoriad diweddaraf yn 2022, sef 'Datblygu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU'. I sicrhau nid yn unig mae rhanddeiliaid yn deall y materion yr ymgynghorir yn eu cylch, ond eu bod hefyd yn gallu cymryd rhan yn fwy helaeth, yn ystod cyfnodau ymgynghori mae'r Awdurdod hefyd yn cynnal gweithdai agored. Mae'r rhain yn galluogi rhanddeiliaid i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r amryw bolisïau a'r ffordd y dylent gael eu rhoi ar waith. Mae'r Awdurdod hefyd yn cynnal gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid y tu allan i'r cyfnodau ymgynghori hyn, gyda grŵp rhanddeiliaid Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU sy'n cwrdd unwaith y mis, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid unigol ar sail ad-hoc yn ôl y gofyn.

Allwch chi roi rhagor o wybodaeth am y broses mewnbyn rhanddeiliaid yn adran osgoi anghydfod y fframwaith?

Fel y nodwyd uchod, mae Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn gynllun technegol a chymhleth sy'n dibynnu ar dystiolaeth a chynghor gan arbenigwyr. O ystyried y ffordd mae'r farchnad mae'r cynllun yn ymwneud â hi yn cael ei rheoleiddio, er ein bod yn ymgysylltu â rhanddeiliaid yn barhaus, mae ein prosesau ymgynghori yn ceisio tystiolaeth gan rhanddeiliaid i arwain y ffordd y bydd y cynllun yn datblygu yn y dyfodol. Mae hyn i gyd yn helpu i sicrhau bod penderfyniadau'n seiliedig ar dystiolaeth, sydd yn ei dro yn helpu i osgoi

anghydfodau cyhyd ag y bo modd. Wrth gwrs, weithiau bydd tystiolaeth yn gwrthdaro. Dyma pan fydd rôl swyddogaethau dadansoddi a llywodraethu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU a'r Grŵp Rhyngweinidogol yn hanfodol i ddatrys y tensiynau hyn.

Rhyngwladol

Pa strategaethau sydd ar waith i sicrhau bod fframwaith Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn cefnogi'r gwaith o lunio polisi rhyngwladol y DU a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol, megis Protocol Kyoto, Cytundeb Paris, a CORSIA?

Er bod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU ei hun un gynllun ar wahân, mae elfennau o'r Cynllun a sefydlwyd ac a lywodraethir o dan y Fframwaith, fel Cofrestrfa'r DU, yn cyflawni'r rhwymedigaethau o dan Brotocol Kyoto drwy ddarparu cyfrifon ar gyfer unedau allyriadau rhyngwladol. Mae rhagor o waith yn mynd rhagddo i archwilio i ddatblygu polisiâu i gefnogi gweithredu Erthygl 6.2 a 6.4 o Gytundeb Paris. Hefyd mae gwaith ar y cyd yn cael ei wneud o dan nawdd Fframwaith y Cynllun Masnachu Allyriadau, i ddiffinio ymhellach y cysylltiad rhwng Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU a CORSIA.

Sut y bydd pedair llywodraeth y DU yn cydgysylltu eu hymdrechion i asesu effaith masnach ryngwladol ar reoli gwahaniaethau polisi'r DU ac ystyried unrhyw oblygiadau o fewn fframwaith Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU?

Mae effeithiau masnach ryngwladol a'r gwahaniaeth polisi cysylltiedig ar y Cynllun Masnachu Allyriadau yn cael eu monitro'n rheolaidd, gan ddefnyddio gwaith ymgysylltu'r Awdurdod ar draws y pedair llywodraeth, drwy swyddogion y Gronfa Adnoddau a'r gweithgorau. Mae'r gwaith ymgysylltu hwn yn galluogi'r Awdurdod i ddatblygu safbwyntiau polisi gyda dealltwriaeth o dirwedd masnach Ryngwladol a lle'r DU ynddi.

Ni chafodd y Concordat Cysylltiadau Rhyngwladol y cyfeiriwyd ato yn y fframwaith ei gwblhau fel rhan o'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol a drafodwyd uchod. Yn absenoldeb y concordat hwn, a ydych o'r farn bod cydweithredu rhynglywodraethol ar gysylltiadau rhyngwladol yn parhau i gael ei lywodraethu gan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth 2001 ar ddatganoli?

Ydyn. Ar hyn o bryd mae cydweithredu ar gysylltiadau rhyngwladol yn cael ei lywodraethu gan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth 2001 a'r Cytundebau Atodol ar ddatganoli. Fodd bynnag, bydd partiön i'r fframwaith yn defnyddio unrhyw goncordat diwygiedig ar gysylltiadau rhyngwladol yn awtomatig, ynghyd â'r egwyddorion ehangach sy'n codi o'r Cydadolygiad o Gysylltiadau Rhyngwladol, fel y sail ar gyfer ystyriaethau rhyngwladol o'r fath.

Yn eich barn chi, a yw'r Fframwaith yn cynnig mwy o gyfleoedd i Lywodraeth Cymru lywio a chymryd rhan yng ngwaith polisi tramor a chysylltiadau rhyngwladol y DU?

Nid sicrhau ymgysylltu gwell ar faterion sy'n ymwneud â gwaith ar gysylltiadau rhyngwladol, na'r strwythurau llywodraethau ynddo oedd bwriad fframweithiau cyffredin.

Fodd bynnag, mewn meysydd sy'n dod o dan fframweithiau cyffredin, a thrwy gymryd rhan mewn trafodaethau â'r UE o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos â'u cymheiriad yn Llywodraethau eraill y DU ac yn rhannu gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth am ddatblygiadau perthnasol yng nghyfraith y DU a goblygiadau Fframwaith Windsor.

Mae swyddogion yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod ein barn ynghylch trafodaethau'n glir, ac i geisio osgoi sefyllfa lle mae cytundeb masnach yn rhoi rhwymedigaeth arnom nad oes modd inni ei chyflawni, neu nad ydym yn dymuno ei chyflawni. Er enghraifft, mae swyddogion a Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn paratoi ar gyfer cyfarfodydd Cyngor Partneriaeth y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, a chawsant eu gwahodd i arsylwi ar gyfarfod y Cyngor Partneriaeth ar 24 Mawrth.

Yr UE

Allwch chi roi rhagor o wybodaeth am oblygiadau posibl cytundeb cysylltu rhwng Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU a Chynllun Masnachu Allyriadau'r UE, yn enwedig mewn meysydd datganoledig?

Mae unrhyw drefniadau posibl ar gyfer cysylltu â Chynllun Masnachu Allyriadau'r UE yn ddarostyngedig i drafodaethau yn y dyfodol. Byddai rôl Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a DAERA yn y trafodaethau'n ddarostyngedig i ddeialog bedairochrog rhwng Gweinidogion. Felly, bydd rôl Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a DAERA (Swyddogion a Gweinidogion) yn y cam nesaf yn ddarostyngedig i ragor o arweiniad. Byddai unrhyw gytundeb a wneir i gysylltu â'r UE mewn meysydd datganoledig yn dod o fewn cymhwysedd datganoledig. Felly, byddai angen asesu'r rhain fel rhan o unrhyw drafodaethau o'r fath, a byddai Gweinidogion y portffolios perthnasol a'r deddfwrfeydd perthnasol yn cael eu cynnwys yn y trafodaethau hyn.

A yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi cysylltu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU a'r UE?

Ydy. O ystyried pwysigrwydd cydweithredu ym maes prisio carbon, a'r rôl bwysig y gall marchnadoedd carbon rhyngwladol eu chwarae wrth gyflawni nid yn unig ein nodau newid hinsawdd, ond nodau byd-eang, byddai cysylltu'n dod â llawer o fanteision i Gymru a'r DU.

Sut mae'r fframwaith yn mynd i'r afael â heriau posibl sy'n deillio o ddod â sylweddau sy'n teneuo'r osôn i ben yn raddol a rheoli allyriadau diwydiannol ac aer o fewn cyd-destun chwarae teg rhwng y DU a'r UE?

Mae rhai polisïau yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng yr UE a'r DU sy'n gorgyffwrdd â pholisïau Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, gyda'r Erthygl 390 ynddo yn cyfeirio at systemau prisio carbon y DU a'r UE mewn perthynas ag allyriadau nwyon tŷ gwydr. Er bod y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn faes a gedwir yn ôl, mae Fframwaith y Cynllun Masnachu Allyriadau yn cydnabod pwysigrwydd Llywodraeth y DU yn gweithio gyda'r llywodraethau datganoledig pan fydd y gorgyffwrdd hwn rhwng polisïau sydd o fewn cymhwysedd datganoledig, fel y mae yn achos Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Mae rhagor o fanylion ynghylch y ffordd y bydd ymgysylltu o'r fath yn cael ei gynnal yn yr ateb i'r cwestiwn isod.

Yng nghyd-destun y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda llywodraethau eraill y DU i fonitro gwahaniaethau ac aliniad i/o safonau'r UE, gan gynnwys er mwyn osgoi mesurau dial posibl?

Fel y nodwyd uchod, mae polisïau Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn gorgyffwrdd â'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, ac felly mae'n bosibl y bydd unrhyw bynciau sy'n berthnasol i'r fframwaith gael eu hystyried o bryd i'w gilydd gan Bwyllgorau Arbenigol y Cytundeb Masnach a Chydweithredu neu'r Cyngor Partneriaeth. Felly, mae'r fframwaith yn darparu, pan fydd agenda cyfarfod rhwng y DU a'r UE yn cynnwys eitem sy'n ymwneud â maes lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli, y bydd Llywodraeth y DU yn hwyluso presenoldeb y llywodraethau datganoledig i lefel debyg i gynrychiolwyr Llywodraeth y DU.

Mae hefyd yn ofynnol i Lywodraeth y DU gynnwys y llywodraethau datganoledig gymaint ag y bo modd wrth baratoi ar gyfer y cyfarfodydd hyn, ni waeth a ydynt yn bresennol neu beidio, ac ar yr holl faterion gweithredu perthnasol. Mae'r darpariaethau hyn yn helpu i sicrhau bod buddiannau Llywodraeth Cymru yn cael eu cynrychioli, ac y byddai'r DU gyfan wedi'i pharatoi yn drwyadl i negodi os bydd mesurau dial posibl.

Cyfraith yr UE a Ddargedwir (REUL)

Allwch chi egluro'r rhyngweithiad rhwng fframwaith Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU a Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir a nodi Cyfraith yr UE a Ddargedwir o fewn cymhwysedd sy'n sail i'r fframwaith?

Gan bydd y Cynllun Masnachu Allyriadau yn cynnwys y pedair gwlad, cafodd swyddogion ar draws yr Awdurdod eu cynnwys yn y trafodaethau cynnar ynghylch pa ddeddfwriaeth y mae angen ei chadw. Cytunwyd bod llawer o gyfraith yr UE a ddargedwir yn anweithredol ac yn amherthnasol ers creu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU.

Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth y DU i wneud cadw cyfraith yn opsiwn diofyn ar gyfer Bil REUL, bu rhagor o drafodaethau ar draws yr Awdurdod ar lefel swyddogol ac â chyfreithwyr o fewn Llywodraeth Cymru. Dim ond darpariaethau nad ydynt bellach yn berthnasol i Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU sy'n cael eu dirymu, ac nid yw'r rhain yn arwain at unrhyw oblygiadau ar gyfer cymhwysedd Gweinidogion Cymru. Bydd unrhyw ddarpariaethau sydd eu hangen er mwyn gweithredu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn cael eu cadw. Fodd bynnag, rydym yn deall bod y Pwyllgor am weld yr wybodaeth hon yn cael ei gwneud ar gael. Byddwn yn trafod y mater hwn o fewn yr Awdurdod a chynnig atodi'r rhain i'r Fframwaith Cyffredin neu wneud rhestr o Gyfreithiau'r UE a ddargedwir ar gael drwy'r broses berthnasol. Bydd y Pwyllgor yn cael ei hysbysu am y canlyniad pan gytunwyd ar y mater hwn.

Hefyd mae'r ffaith bod papur diweddaraf y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol wedi nodi mai Fframweithiau Cyffredin yw'r mecanwaith cywir ar gyfer rheoli gwahaniaeth rheoleiddiol o ganlyniad i Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir yn rhoi sicrwydd inni. Yn yr un modd mae papur polisi Llywodraeth y DU ar 'smarter regulation to grow the economy', a gyhoeddwyd ar 10 Mai, yn cadarnhau, wrth ddefnyddio'r pwerau yn y Bil, y bydd y Fframweithiau Cyffredin yn cael eu defnyddio i weithio gyda'r llywodraethau datganoledig ar benderfyniadau mewn perthynas â pholisi a deddfwriaeth ledled y DU.

Allech chi ddarparu asesiad Llywodraeth Cymru o effaith Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir ar y fframwaith?

Nid nodwyd unrhyw effeithiau am y resymau a roddwyd uchod.

Monitro ac Adolygu

Sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymgorffori argymhellion y Pwyllgor ynghylch rôl deddfwrfeydd a rhanddeiliaid yn y gwaith o adolygu a diwygio fframweithiau?

Roedd Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig yn gweithio ar y cyd â rhanddeiliaid technegol â diddordeb yn 2019 drwy'r ymgynghoriad ar 'Brisio Carbon y DU yn y Dyfodol'. Rydym yn ystyried gwaith ymgysylltu ôl-weithredol fesul achos. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod argymhellion y Pwyllgor ynghylch gweithio gyda'r deddfwrfeydd a rhanddeiliaid wrth adolygu'r fframwaith. Mae gan Fframwaith y Cynllun Masnachu Allyriadau

rwymedigaeth i adolygu trefniadau'r Fframwaith ar ôl adolygiad cychwynnol 2023, a bydd y pwyntiau a nodir yn cael eu cynnwys yn nhrefodaethau'n Awdurdod yn hyn o beth.

Allwch chi roi rhagor o wybodaeth am sut y caiff fframwaith Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU ei adolygu a'i ddiwygio, yn enwedig o ran cynnwys rhanddeiliaid a deddfwrfeydd?

Bydd yr Awdurdod yn cynnal adolygiad cychwynnol o'r Fframwaith Cyffredin o fewn tri mis i'r adolygiad cyntaf o bolisiau'r Cynllun gael ei gwblhau. Disgwylir i'r adolygiad hwn gael ei gynnal yn 2023.

Bydd yr adolygiad o'r Fframwaith yn edrych ar y trefniadau llywodraethu a'r pwyntiau a godir yn cael eu cynnwys yn nhrefodaethau'n Awdurdod yn hyn o beth.

Sut mae'r fframwaith yn mynd i'r afael â galwad y Pwyllgor am lunio adroddiadau blynyddol ar weithrediad y fframweithiau?

Ym mis Chwefror, gwnaeth y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ailgadarnhau pwysigrwydd adrodd i'r deddfwrfeydd ynghylch y ffordd mae Fframweithiau Cyffredin yn cael eu gweithredu. Cymeradwyodd y Pwyllgor dempled ar gyfer adrodd blynyddol ar ôl cadarnhau'r fersiwn derfynol. Mae'r templed yn cynnwys adran benodol ar gyfer timau polisi i adrodd ar wahaniaethau ac anghydfodau a godwyd yn ystod y flwyddyn.

Yn fwy cyffredinol, mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn hanfodol mynd ati mewn modd effeithiol i fonitro a chraffu ar y ffordd mae Fframweithiau Cyffredin yn cael eu gweithredu.

Mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol yn adolygu rhai o'r materion trawsbynciol mwy sylweddol a allai ddod i'r amlwg yn ystod y broses graffu.

Beth yw'r meini prawf ar gyfer sbarduno adolygiadau ad-hoc o Fframwaith Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU?

Nid oes unrhyw feini prawf gosod ar gyfer sbarduno adolygiadau ad-hoc o'r Fframwaith. Fodd bynnag, am fod y gwaith o roi'r fframwaith ar waith yn parhau i fod yn ei ddyddiau cynnar, bydd yr Awdurdod yn parhau i fonitro'r ffordd y bydd unrhyw ddatblygiadau'n effeithio ar y fframwaith, a phan fydd angen cynnal adolygiadau ad-hoc o'r rhain. Gall hyn wedyn lywio'r adolygiad o'r Fframwaith y cyfeiriwyd ato yn yr ymateb uchod.

Yn gywir,



Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref: RE-221-2023

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru

SeneddHinsawdd@senedd.cymru

26 Mehefin 2023

Annwyl Llyr,

Canlyniad y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, cynhaliwyd ail gyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ar 10 Mai 2023. Yn Weinidog arweiniol ar gyfer y Grŵp hwn, gofynnais i'r Gweinidog Newid Hinsawdd gadeirio'r cyfarfod gan fod eitemau'r agenda yn dod o dan ei phortffolio hi. Yn wreiddiol, roedd y cyfarfod hwn wedi'i drefnu at 10 Hydref 2022 ond fe'i gohiriwyd ar gais Llywodraeth y DU.

Nid oedd Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd yn gallu bod yn bresennol ar y diwrnod a rhannodd hi ei hymddiheuriadau. Cynrychiolwyd Llywodraeth Cymru gan: Emma Williams, y Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio; Sarah Rhodes, y Pennaeth Atal Digartrefedd; Andrea Street, y Dirprwy Gyfarwyddwr Safonau a Rheoleiddio Diogelwch Tai; a Jo Larner, Pennaeth y Rhaglen Diogelwch Adeiladau.

Ar ran Llywodraeth yr Alban, roedd Paul McLennan ASA, y Gweinidog Tai yn bresennol yn y cyfarfod, ac yn absenoldeb y Gweinidog Newid Hinsawdd, cytunodd i gadeirio'r cyfarfod. Cynrychiolwyd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon gan Mark O'Donnell, y Dirprwy Ysgrifennydd Tai, Adfywio Trefol a Llywodraeth Leol; Paul Price, y Cyfarwyddwr Polisi Tai Cymdeithasol a Kieran Devlin, y Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi Cyflenwad Tai. O Lywodraeth y DU, roedd Felicity Buchan AS, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol ar gyfer Tai a Chysgu Allan ac ar gyfer yr Undeb a'r Cyfansoddiad yn bresennol er nid oedd yn bresennol ar gyfer yr eitem diogelwch adeiladau yn sgil ei chyswllt etholaethol â Grenfell. Hefyd yn bresennol yr oedd Lee Rowley AS, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol ar gyfer Llywodraeth Leol a Diogelwch Adeiladau.

Digartrefedd oedd yr eitem o bwys ar yr agenda a thrafododd y grŵp y blaenoriaethau a'r heriau cyffredin y mae pob llywodraeth yn eu hwynebu o ran mynd i'r afael â digartrefedd. Roedd gwneud i'r Sector Rhentu Preifat weithio er mwyn atal digartrefedd a blaenoriaethu

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 50

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

mesurau atal wedi'u targedu yn feysydd ffocws allweddol. Er, yng nghyd-destun digartrefedd, trafodwyd bod effeithiau costau byw, y rhyfel yn Wcráin ac argyfyngau dyngarol eraill yn bryderon a rennir. Mae heriau cyffredin hefyd o ran cyfraddau Lwfans Tai Lleol, cadernid gweithluoedd a nifer y bobl sydd mewn llety dros dro. Trafodwyd hefyd y cynnydd sydd wedi'i wneud ar faterion diogelwch adeiladau ers cyfarfod cychwynnol y Grŵp Rhyngweiniogol. Cydnabuwyd y berthynas waith gadarnhaol sydd rhwng swyddogion ym meysydd diogelwch adeiladau a digartrefedd a chytunwyd i'r cydweithio ar y lefel hon barhau.

Cytunodd y grŵp y byddai Llywodraeth yr Alban yn cynnal y cyfarfod nesaf sy'n debygol o gael ei drefnu at yr hydref. Bydd swyddogion yn cydweithio yn awr i nodi dyddiad penodol ac eitemau addas ar gyfer yr agenda.

Yn gywir,



Rebecca Evans AS/MS

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Eitem 4.6

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref PO/JJ/222/2023

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

26 Mehefin 2023

Annwyl Llyr,

Yn ystod fy mhresenoldeb yn y Pwyllgor ar 24 Mai 2023 lle rhoddais dystiolaeth ar Fil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru), gwnaethpwyd sawl ymrwymiad i sicrhau rhagor o wybodaeth dechnegol i gynorthwyo â'r gwaith craffu ar y Bil. Mae'r ddogfen dechnegol sydd wedi'i hatodi yn darparu'r wybodaeth hon.

Yn gywir

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 52
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Written Technical Briefing on the Environment Protection (Air Quality and Soundscapes) (Wales) Bill

Contents

| | |
|--|----|
| Air Quality Targets..... | 2 |
| Existing Targets and Compliance Assessment..... | 2 |
| Air Quality Target Development Under the Bill..... | 6 |
| Domestic burning | 12 |
| List of prosecutions | 13 |
| Local Air Quality Management | 14 |
| Annex..... | 15 |
| 2020 Data | 16 |
| 2021 Data | 20 |

Air Quality Targets

Existing Targets and Compliance Assessment

Overview

The air quality legislative framework in Wales and the UK is currently derived from a mixture of domestic and international legislation and consists of three main strands:

